

TEITL Y SWYDD
BAND

4

Ymarferydd Cynorthwyol (Sgrinio - Mamograffeg)

Crynodeb o'r Swydd

- Cynnal archwiliadau sgrinio delweddu mamograffeg yn fanwl gywir ac yn gyflym ar bobl asymptomatig er mwyn cyd-fynd â gofynion rhaglen sgrinio Bron Brawf Cymru.
- Cefnogi staff cofrestredig i ddarparu biopsïau, draeniau a chyflawni gofynion clinigol, gweinyddol a phrosesu ffilm cysylltiedig eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen sgrinio Bron Brawf Cymru.
- Teithio i safleoedd symudol yn yr Is-adran berthnasol, gan weithio gydag un aelod arall o staff i gynnal archwiliadau sgrinio yn yr unedau symudol.
- Byddwch yn meddu ar Ddiploma Lefel 4 Agored ar gyfer Ymarferydd Cynorthwyol (Sgrinio - Mamograffeg) / cymhwyster cyfatebol neu'n ymrwmo i ymgymryd â'r brentisiaeth hon ar ôl eich penodi, gan gwblhau asesiadau academaidd a chlinigol ochr yn ochr â hyfforddiant mewnol i gyflawni'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Yn gyfrifol i'r canlynol

Yn gyfrifol o ran adrodd i'r:

Yn atebol i'r:

Yn atebol yn broffesiynol i'r:

Cyfrifoldebau a Dyletswyddau

Cynllunio a Dylunio

Blaenoriaethu a rheoli eich llwyth gwaith eich hun, gan gynnal hyblygrwydd wrth gytuno ar rotâu lleoli a gweithio'n gynnar/hwyr i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau clinigol.

Cymryd cyfrifoldeb i sicrhau bod gwaith academaidd a hyfforddiant ymarferol yn cael eu cydbwysu ochr yn ochr â chyflenwi gwasanaethau a gofynion rota. Delio ag ymholiadau a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i staff priodol, gan flaenoriaethu galwadau oherwydd natur anrhagweladwy'r gwaith ac anghenion cystadleuol sawl grŵp o staff.

Gwiriw rhestrau clinigau, gan wneud yn siŵr bod yr holl ddelweddau a gwaith papur ar gael o flaen llaw a chyfeirio unrhyw broblemau posibl at uwch staff er mwyn lleihau oedi.

Sicrhau y cymerir yr holl gamau angenrheidiol i alluogi dehongli delweddau ac adrodd arnynt, gan amlygu unrhyw ganfyddiadau annisgwyl i glinigwyr er mwyn cyflymu gofal.

Trefnu tasgau dyddiol yn annibynnol gan ddefnyddio eich menter eich hun mewn ymateb i anghenion yr adran / y gwasanaeth.

Gwella a Monitro

Cymryd rhan mewn gweithdrefnau rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd, cynnal profion ar offer i sicrhau eu bod yn gweithio'n optimaidd a meddu ar wybodaeth sylfaenol am ddehongli canlyniadau profion a gwybod sut a phryd i gymryd camau adferol.

Cymryd rhan mewn adolygiadau perfformiad a gwerthusiadau unigol, gan gynnal portffolio datblygiad proffesiynol parhaus a sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'n parhau'n gyfredol ac yn unol â gofynion y gwasanaeth a chynnal cyfradd Adalw i gof Technegol o <3% yn unol â chanllawiau NHSBSP.

Cynorthwyo a chymryd rhan mewn archwiliadau o'r Llawlyfr Ansawdd, ac awgrymu syniadau i'w cynnwys pan fo angen.

Cymryd rhan mewn adolygiadau personol a chymheiriaid o archwiliadau mamograffeg gan roi canlyniadau cytûn ar waith.

Cyfathrebu

Cyfarch y defnyddwyr gwasanaeth, gan wneud gwiriadau adnabod ac esboniwch bob agwedd ar yr archwiliad i sicrhau bod dealltwriaeth a chaniatâd. Bydd angen i chi allu addasu technegau cyfathrebu i ddarparu ar gyfer y rhai a all fod ag anghenion ychwanegol megis colli clyw, rhwystrau iaith, gorbryder neu drallod gan fod yn ymwybodol o'r amgylchedd llawn straen mewn sesiynau asesu lle gellir profi dichter ac ymddygiad ymosodol o bryd i'w gilydd.

Cyfathrebu'n sensitif tra'n rhoi gwybodaeth bellach megis apwyntiadau ysbyty neu amserlenni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cael newyddion gofidus neu ddigroeso.

Cyfathrebu â chydweithwyr Bron Brawf Cymru, staff cofrestredig a chlinigwyr o gefndiroedd delweddu a nyrsio wyneb yn wyneb, dros y ffôn a thrwy ddulliau electronig i hwyluso cyflenwi gwasanaethau di-dor a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu ac yn glir i bawb.

Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd staff i dderbyn gwybodaeth a rhoi adborth.

Clinigol

Ennill y wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i weithredu fel Gweithredwr IR(ME)R, gan gyflwyno delweddau o'r fron sy'n seiliedig ar brotocol sydd o fewn y cwmpas ymarfer y cytunwyd arno ac sydd o'r ansawdd diagnostig gorau posibl, a datblygu'r sgiliau crebwyll sydd eu hangen i benderfynu a fydd angen ail ddelweddu neu ddelweddu pellach.

Gallu addasu lleoliad cleifion a pharamedrau datguddiad i gael yr ansawdd delwedd gorau posibl ar y lefelau dos peldrydiad isaf, gan gadw mewn cof unrhyw gyfyngiadau corfforol neu gyfyngiadau eraill a allai fod gan gleifion, a datblygu'r cyflymder a'r cywirdeb sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau mewn amgylchedd cyflym.

Nodi a chofnodi arsylwadau clinigol yn gywir fel gwrthdroad yn y deth neu rwymo croen.

Gweithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac o bell mewn perthynas â phrofiad ac yn unol â chwmpas ymarfer a dogfennau llywodraethu.

Cynorthwyo staff meddygol gyda gweithdrefnau clinigol, perfformio hemostasis a chynorthwyo gyda gweithdrefnau fel allsugno coden yn unol â hyfforddiant.

Gosod a thynnu canwlâu mewnwythiennol, a fflysiu â dyfeisiau halwynog wedi'u llenwi ymlaen llaw

Paratoi offer ar gyfer rhoi meddyginiaethau mewnwythiennol / cyferbyniad gan staff cofrestredig lle bo mecanweithiau cyfreithiol yn caniatáu hynny, a gweithredu fel ail wiriwr pan fydd y rhain i'w rhoi gan ymarferydd cofrestredig.

Gosod troliâu ac offer gweithdrefnau gan ddefnyddio technegau aseptic ar gyfer amrywiaeth o weithdrefnau, clirio, pecynnu, gwaredu eitemau ail-law a thrin sbesimenau a sicrhau bod amgylchedd glân a dihalog yn cael ei gynnal yn unol â'r holl bolisiâu a gweithdrefnau.

Gweithio yn unol â pholisiâu, gweithdrefnau, protocolau, canllawiau lleol a chenedlaethol, ac yn unol â rheoliadau ymbelydredd, gan roi gwybod am beryglon, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau trwy sianeli sefydledig ar unwaith.

Defnyddio sgiliau a gwybodaeth a enillwyd trwy rôl i oresgyn ystod o faterion clinigol a materion eraill, gan allu nodi achosion lle mae angen uwchgyfeirio i staff uwch.

Ymgymryd yn ôl yr angen, dyletswyddau ychwanegol a ddirprwyir gan staff cofrestredig sy'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â dirprwyo, goruchwyllo, a chwmpas ymarfer Ymarferwyr Cynorthwyol mewn Sgrinio - Mamograffeg.

Gweithio bob amser o fewn cwmpas ymarfer diffiniedig Ymarferydd Cynorthwyol (Sgrinio - Mamograffeg), gan ymgynghori â chydweithwyr uwch mewn achosion lle mae'n ofynnol i staff cofrestredig ddelweddu cleifion (e.e. y rheini â mewnblaniadau bron, Hickman Lines neu ddyfeisiau meddygol eraill sydd wedi'u mewnblannu).

Anghlinigol

Cyflawni dyletswyddau derbynfa a gweinyddol eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys cynnal, ffeilio ac adalw delweddu o ganolfannau eraill. Efallai y bydd angen cludo ffilmiau i fyni'r grisiau neu i / o adeilad arall yn anaml mewn rhai lleoliadau.

Rhoi gwybod am unrhyw ddiffyg offer neu ddirywiad yn ansawdd y ddelwedd yn ddi-oed, gan ddilyn protocolau i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o faterion ac effaith.

Dilyn gofynion atal a rheoli heintiau Bron Brawf Cymru i ddihalogi a glanhau offer a'r amgylchedd, symud a gwaredu gwastraff clinigol ac offer miniog yn ddiogel, cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth gyda gofal personol a newid i gynau archwilio yn ôl yr angen.

Y gallu i deithio rhwng unedau sefydlog a symudol, y gall rhai ohonynt fod yn ddaearyddol anghysbell a/neu angen aros dros nos, mewn modd amserol.

Cyflawni dyletswyddau hebryngwyr yn ôl yr angen, gan gynnwys ar gyfer meddygon ymgynghorol sy'n rhoi canlyniadau anfalaen a malaen mewn achosion lle nad yw cynghorydd nyrsio ar gael.

Cychwyn ymchwiliadau mewn meysydd fel anghysondebau, gan uwchgyfeirio i staff uwch yn ôl yr angen.

Cyllid a Chyllideb

Sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau trwy ddefnyddio stoc yn nhrefn dyddiad a sicrhau lefelau digonol parhaus, adrodd neu archebu cyflenwadau yn ôl yr angen.

Ymrwmo i gyflawni'r cymhwyster Lefel 4 gofynnol er mwyn sicrhau bod buddsoddiad ariannol o fudd wrth ddarparu gwasanaethau.

Bod yn gyfrifol am gyflwyno eich treuliau a'ch hawliadau eich hun yn gywir ac yn amserol, gan roi gwybod am unrhyw anghysondebau mewn cyflog yn brydlon i reolwyr.

Rheoli, Arwain a/neu Hyfforddi

Byddwch yn dilyn cymhwyster Ymarferydd Cynorthwyol Lefel 4 (Sgrinio - Mamograffeg) i ennill yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ymarfer fel Ymarferydd Cynorthwyol o fewn gwasanaethau sgrinio Bron Brawf Cymru, sy'n gofyn am tua 12 mis o hyfforddiant ac asesiad academaidd a chlinigol.

Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau ymarfer diweddaraf ac ymgorffori'r angen i hyfforddi ar offer newydd yn ôl yr angen.

Efallai y bydd gofyn i chi gefnogi hyfforddiant a datblygiad Gweithwyr Cymorth Clinigol neu hyfforddeion Ymarferwyr Cynorthwyol yn y dyfodol.

Mae cyflawni cofrestr Ymarferwyr Cynorthwyol Cymdeithas y Radiograffwyr a'i hachredu'n barhaus yn wirfoddol ond rydym yn annog hyn, a byddwch yn cael eich cefnogi gan reolwyr i gael hyn.

Digidol a Gwybodaeth

Defnyddio amrywiaeth o raglenni meddalwedd fel y System Sgrinio'r Fron Genedlaethol (NBSS) a'r System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) i gofnodi, cyrchu, gwirio a diweddarau demograffeg cleifion, gwybodaeth glinigol, delweddu, a chanlyniadau, a sicrhau bod yr holl ddata o unedau symudol yn cael eu mewnbynnu i'r systemau hyn.

Paratoi data digidol ar gyfer gwaith ar unedau symudol a threfnu i ddelweddu o adalw technegol fod ar gael i'r gwefannau hyn.

Mewnforio delweddu o sefydliadau allanol a safleoedd eraill Bron Brawf Cymru trwy Borth Cyfnewid Delweddu (IEP) neu gryno ddisgiau, gwirio uwchlwytho llwyddiannus a gweithredu unrhyw geisiadau i allforio i sefydliadau allanol gan ddefnyddio'r un systemau, uwchlwytho delweddu PERFFORMIO.

Paratoi a chyfateb ffilmiau digidol ac analog er mwyn adrodd arnynt, digideiddio ffilmiau a ffurflenni a'u mewnfario i PACS yn ôl yr angen a chynorthwyo gyda pharatoi delweddau ar gyfer cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol.
Datrys problemau syml gyda systemau digidol / gwybodeg gan ddefnyddio gwybodaeth o hyfforddiant system, gan uwchgyfeirio materion y tu hwnt i'w datrys yn brydlon.

MANYLEB Y PERSON

Cymwysterau a Gwybodaeth

Hanfodol

Cymhwyster Ymarferydd Cynorthwyol Lefel 4 (Sgrinio - Mamograffeg) neu gyfwerth

Dymunol

Diploma Lefel 3 mewn Sgrinio Iechyd neu faes Gofal Iechyd arall.

Profiad

Hanfodol

Profiad o weithio gyda phobl.

Dymunol

Profiad blaenorol mewn iechyd a/neu ofal cymdeithasol naill ai mewn swydd gyflogedig, profiad gwaith, neu wirfoddol
Gwybodaeth am wasanaethau NHBSS a Bron Brawf Cymru.

Sgiliau a Phrïodoledau

Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da a sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol.

Dull gofalgarg ac empathetig, y gallu i ddelio â sefyllfaoedd trallodus.

Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.

Trefnus a gallu parhau i ganolbwyntio a pheidio â chynhyrfu o dan bwysau ac mewn amgylcheddau prysur.

Cymhelliant a pharod i ddysgu mewn amgylchiadau addysgol a chlinigol, chwilio am ddysgu, derbyn cyfarwyddyd a rhoi/derbyn adborth gwrthgyferbyniol.

Mae Sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar lefelau 1 i 5 o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu.

Arall

Cliriad DBS Boddhaol Safonol/Manwl gan gynnwys gwiriad Rhestr Gwahardd Oedolion.

Y gallu i symud a thrin offer a chynorthwyo gyda chodi a chario cleifion, dehurwydd dwylo i osod cleifion ar gyfer delweddu.

Y gallu i deithio rhwng unedau symudol Bron Brawf Cymru mewn modd amserol a lle gallai fod angen aros dros nos.